# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013** | |
| Amser: | **09:00 - 11:00** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_19_03_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Tystion: | **Dr Sharon Blackford, Cymdeithas Feddygol Prydain**<br>**Dr Trevor Pickersgill, Cymdeithas Feddygol Prydain** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd.

## 2. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd - tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; a Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

2.2 Bu’r Pwyllgor yn holi’r tystion.

**Camau i’w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Amserlen yn amlinellu sut y bydd y GIG yng Nghymru yn gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Rhagor o wybodaeth am brosiectau y mae'r GIG yng Nghymru wedi comisiynu CHKS i ymgymryd â nhw, ac eglurhad ynghylch sut ddaeth y GIG yng Nghymru i'r casgliad bod y cytundeb yn cynrychioli gwerth da am arian;
- Adborth ar y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch mesurau teg ac ystyrlon o gynhyrchiant meddygon ymgynghorol;
- Eglurhad am y trefniadau sydd ar waith i werthuso’r effaith y mae ymrwymiadau gwaith preifat meddygon ymgynghorol yn ei chael ar eu hymrwymiadau yn y GIG;
- Rhagor o wybodaeth am sut mae cyrff y GIG yn mynd ati i adennill costau gan feddygon ymgynghorol os byddant yn defnyddio cyfleusterau'r GIG i ymgymryd â gwaith preifat, ac a fu achosion lle mae'r GIG wedi prynu amser meddygon ymgynghorol a ddyrannwyd ar gyfer gwaith preifat;
- Rhagor o wybodaeth ynghylch a yw effaith y trefniadau gweithio hyblyg sy'n deillio o'r contract diwygiedig wedi cynyddu'r nifer o feddygon ymgynghorol sy’n fenywod.

## 3. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau’r Manteision a Fwriadwyd - tystiolaeth gan Gymdeithas Feddygol Prydain

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Sharon Blackford, Cadeirydd Pwyllgor Meddygon Ymgynghorol Cymru; a Dr Trevor Pickersgill, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Meddygon Ymgynghorol Cymru.

3.2 Bu’r Pwyllgor yn holi’r tystion ynghylch canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ‘Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau’r Manteision a Fwriadwyd’.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i’r camau i’w cymryd yn y cyfarfod ar 18 Chwefror 2013, a chofnodion y cyfarfod ar 12 Mawrth 2013.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 6 a 7

## 6. Ystyried tystiolaeth ar y Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau’r Manteision a Fwriadwyd

6.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd fel rhan o’i ymchwiliad i Gontract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau’r Manteision a Fwriadwyd.

## 7. Ystyried gohebiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y posibilrwydd o gynnal astudiaeth Gwerth am Arian

7.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod astudiaethau gwerth am arian posibl i’w cynnal gan archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru.